ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 12

## TROSGLWYDDIADAU I MEWN AC ALLAN O'R CYNLLUN

### PENNOD 3

### TROSGLWYDDIADAU I MEWN I'R CYNLLUN

**Cyfrifo gwasanaeth pensiynadwy a drosglwyddwyd i mewn**

**11.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i'r cyfnod o wasanaeth pensiynadwy y mae gan yr aelod hawlogaeth i'w gyfrif o dan reol 10(2) gael ei gyfrifo yn ôl y dyddiad y mae'r gwerth trosglwyddo yn dod i law'r awdurdod ac yn unol â'r canllawiau a'r tablau a ddarperir at y diben gan Actiwari'r Cynllun.

(2) At ddibenion y cyfrifo hwnnw, mae enillion pensiynadwy'r aelod i'w hystyried yn swm yr enillion hynny ar y naill neu'r llall o'r dyddiadau hynny—

(a) deufis ar ôl i'r cais o dan reol 8 ddod i law, neu

(b) y dyddiad y daw'r taliad gwerth trosglwyddo i law,

p'un bynnag yw'r diweddaraf; ac, mewn achos lle daw'r taliad gwerth trosglwyddo i law yn gynharach na deufis ar ôl i'r cais hwnnw ddod i law, rhaid gwneud unrhyw addasiad angenrheidiol i'r cyfrifiad hwnnw i adlewyrchu unrhyw newid yn swm yr enillion hynny.

(3) Os derbynnir y taliad gwerth trosglwyddo o dan drefniadau trosglwyddo sector cyhoeddus, rhaid cyfrifo'r cyfnod y mae gan yr aelod hawlogaeth i'w gyfrif—

(a) yn ddarostyngedig i baragraff (4), yn unol â'r trefniadau hynny, a

(b) drwy gyfeirio at y canllawiau a'r tablau a ddarperir gan Actiwari'r Cynllun at ddibenion y paragraff hwn ac sy'n cael eu defnyddio ar y dyddiad a ddefnyddir gan y cynllun trosglwyddo i gyfrifo'r taliad gwerth trosglwyddo.

(4) Os byddai'r cyfnod y byddai gan yr aelod hawlogaeth i'w gyfrif yn fwy petai'r taliad gwerth trosglwyddo yn cael ei dderbyn mewn ffordd heblaw o dan drefniadau trosglwyddo sector cyhoeddus—

(a) nid yw'r trefniadau hynny'n gymwys, a

(b) bydd paragraff (1) o'r rheol hon yn gymwys yn lle hynny.